# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH, DDYDD MAWRTH, 25 MEDI 2018, AM 5.30PM.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Havard – Cadeirydd

Cynghorwyr:

P.J. Bevan, A. Collis, S. Cook, W. David, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, M.P. James, B. Miles, Mrs G.D. Oliver, J.E. Roberts, R. Saralis, a J. Simmonds

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), Jane Southcombe (Rheolwr Gwasanaethau Ariannol), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), a K. Houghton (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau cyfetholedig: Mr R. Morgan (Rhiant-lywodraethwr) a Mrs P.J. Ireland (Undeb Addysg Cenedlaethol)

E. Pryce (Gwasanaeth Cyflawni Addysg), J. Wood (Gwasanaeth Cyflawni Addysg), a N. Thain (Pennaeth, Ysgol Gymunedol Gynradd a Meithrin Graig-y-rhaca)

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law gan y Cynghorwyr P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad), C. Andrews (Is-gadeirydd), Mrs T. Parry, a R. Whiting. Hefyd Mr M. Barry (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr), Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili), Mrs J. Havard (Undeb Addysg Cenedlaethol), a Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archdiocesaidd Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg).

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

**3. COFNODION – 3 GORFFENNAF 2018**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ddydd Mawrth 3 Gorffennaf 2018 (cofnodion rhifau 1–8) yn gofnod cywir, a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

## 5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET

Nodwyd bod ymddiheuriad am absenoldeb wedi dod i law gan y Cynghorydd P. Marsden, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad; oherwydd hyn, nodwyd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol heb sylw. Gofynnwyd i'r Aelodau roi unrhyw adborth yn uniongyrchol i'r Cynghorydd Marsden drwy e-bost.

Darllenodd y Cadeirydd ddatganiad byr ar ei rhan, a diolchodd i'r Aelod Cabinet am yr adroddiad.

## 6. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES

Cyflwynodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad, a oedd yn amlinellu blaen raglen waith ddrafft y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes o fis Medi 2018 tan fis Ebrill 2018.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bu nifer o newidiadau arfaethedig i'r rhaglen, ers cyhoeddi'r adroddiad, er mwyn iddynt eu hystyried. Mae swyddogion wedi gofyn i'r Aelodau ystyried symud yr adroddiad ar y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a drefnwyd ar gyfer 6 Tachwedd 2018, i ddyddiad i'w gadarnhau er mwyn caniatáu cynnwys gwybodaeth ychwanegol nad yw ar gael yn ystod yr amserlen honno. Bydd yr adroddiad, sef Canolfan Adnoddau Arbennig Ysgol Gynradd Pontllan-fraith – sydd hefyd wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 6 Tachwedd – bellach yn cynnwys Ysgol Idris Davies hefyd. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau ystyried derbyn yr adroddiad Cyllid Hyblygrwydd ar gyfer 8 Ionawr 2019 fel eitem wybodaeth, ac awgrymwyd adroddiad ychwanegol ar gyfer y cyfarfod ar 19 Chwefror 2019 ar Safonau Llyfrgelloedd.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y flaenraglen waith, a'r newidiadau arfaethedig, a gwneud unrhyw newidiadau neu gynnig unrhyw eitemau ychwanegol i'w cynnwys ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd am gyflwyno'r flaenraglen waith, a chroesawyd sylwadau'r Aelodau.

Holodd yr Aelodau am gynnydd yr adroddiad y gofynnwyd amdano ar gynlluniau i wella cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 4. Dywedodd y Prif Swyddog Addysg wrth yr Aelodau fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal â phob un o'r ysgolion uwchradd yn y fwrdeistref sirol. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cwblhau cyn hanner tymor mis Hydref 2018 a bydd barn yn cael ei ffurfio a'i hadrodd i gyfarfod y Pwyllgor ar 8 Ionawr 2019 ar y cynharaf a chysylltu hyn wedyn ag adroddiadau ar berfformiad Cyfnodau Allweddol 4 a 5. Mynegodd yr Aelodau bryderon am yr amserlenni adrodd, o ystyried bod angen cynllun yn dilyn canlyniadau arholiadau'r flwyddyn hon ac asesiadau Estyn ar gyfer ysgolion uwchradd yr ardal. Cytunodd y Prif Swyddog Addysg fod angen cyflymu gwelliant yn y maes hwn; gan fod hyn yn gofyn am ddull strategol, roedd yn hanfodol bod pob ysgol uwchradd yn cael ei chynnwys yn y gwaith paratoadol fel bod modd ffurfio barn gytbwys a gwybodus ar draws pob un o'r ysgolion.

Gofynnodd yr Aelodau am gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiadau ar ganlyniadau'r Adolygiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg fod hwn yn adolygiad parhaus dros nifer o flynyddoedd, a byddai tri adroddiad yn cael eu hychwanegu at y Flaen Raglen Waith maes o law. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod rhagor o waith i'w

wneud ar yr adolygiad, gyda thri ymweliad arall ag ysgolion a goblygiadau personél i'w hystyried yn llawn.

Gofynnodd yr Aelodau am gael trosolwg byr o statws Cynigion Band B y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif cyn cyflwyno'r adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2018. Dywedodd Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg wrth y Pwyllgor eu bod nhw'n disgwyl sicrhau cytundeb ar gyfer y ffrydiau cyllido, sydd i'w cadarnhau cyn mis Tachwedd 2018, a'u bod nhw hefyd yn disgwyl y wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir yn y fwrdeistref sirol. Roedd hi'n disgwyl i'r adroddiad ddod gerbron y Pwyllgor Craffu, cyn y Cabinet, yn ystod diwedd tymor y gwanwyn 2019.

Yn dilyn ystyriaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad a newidiadau arfaethedig y Swyddog yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r flaen raglen waith, a atodir wrth yr adroddiad, yn amodol ar y newidiadau uchod.

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

**7. CYRHAEDDIAD DISGYBLION YN Y CYFNOD SYLFAEN, CYFNOD ALLWEDDOL 2 A CHYFNOD ALLWEDDOL 3 – 2017**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs. N. Thain, Pennaeth Ysgol Gymunedol Gynradd a Meithrin Graig-y-rhaca, i'r cyfarfod.

Rhoddodd Mrs Thain gyflwyniad yn manylu ar berfformiad yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen, a rhoddodd enghreifftiau o'r arferion gorau a ddefnyddir yn yr ysgol. Yn benodol, amlinellodd y Pennaeth yr heriau sy'n wynebu'r ysgol mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd difrifol, a thynnodd sylw at ddefnydd yr ysgol o amrywiaeth o ddulliau i gyflawni amcanion perfformiad. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio amgylcheddau dysgu dan do/awyr agored, cyfoethogi amgylcheddau dysgu ar gyfer llythrennedd a rhifedd, gwahanol dechnegau ar gyfer datblygu dysgwyr hyderus, chwilfrydig ac annibynnol, ac ymgysylltu â rhieni a'r gymuned.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau yn ymwneud â chynnwys rhieni, cysylltu â'r rhaglen Dechrau'n Deg yn yr ardal a lefelau presenoldeb. Cadarnhaodd y Pennaeth fod llawer o waith yr ysgol wedi canolbwyntio ar feithrin perthynas gadarnhaol a chynhwysol gyda rhieni a'r gymuned. Roedd hyn wedi cynnwys sesiwn cwrdd a chyfarch gyda'r Pennaeth, cynnwys rhieni mewn diwrnodau dysgu thematig, clwb gwaith cartref i ddisgyblion a rhieni, ac archwilio llu o ddulliau darparu cymorth ar gyfer rhieni. Mae canolbwyntio ar estyn allan i'r gymuned hefyd wedi cynnwys ymgysylltu â'r rhaglen Dechrau'n Deg, gyda staff yr ysgol a staff y rhaglen yn rhannu arferion da a chynnal digwyddiadau Dechrau'n Deg yn yr ysgol. Dywedodd y Pennaeth wrth yr Aelodau fod materion lefelau presenoldeb ar y gweill a bod dull aml-asiantaeth yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo rhieni, yn enwedig ym maes sefydlu arferion a strwythur yn y cartref.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Ysgol Gymunedol Gynradd a Meithrin Graig-y-rhaca, a'i llongyfarch hi ar ran y Pwyllgor am y gwaith da a oedd yn cael ei wneud yn yr ysgol.

Yna, cyflwynodd y Prif Swyddog Addysg yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gyrhaeddiad disgyblion mewn asesiadau athrawon yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn 2017. Dywedodd hi wrth yr Aelodau fod y trefniadau adrodd wedi newid oherwydd ni fyddai asesiadau athrawon mewn awdurdodau lleol ar gael yn gyhoeddus mwyach ar ffurf tablau cynghrair; mae hyn er mwyn rhoi mwy o ryddid i'r ysgolion addasu i gwricwlwm newydd Cymru, ac nid yw'r dull asesu wedi'i benderfynu hyd yn hyn. Bydd y data'n

dal i fod ar gael yn fewnol i awdurdodau lleol eu defnyddio, ond, ni fydd meincnodau 1, 2, 3 a 4 yn cael eu pennu oherwydd ni fydd unrhyw ddata cymaradwy ag awdurdodau lleol eraill. Atgoffwyd yr Aelodau y cynhelir gweithdy, sy'n rhoi'r manylion ar y newidiadau hyn, ddydd Iau 27 Medi 2018 a gofynnwyd iddyn nhw wneud pob ymdrech i fod yn bresennol.

Cododd yr Aelodau bryderon am y ffaith ei bod yn ymddangos bod lleihad yn swmp y data cymharol sydd ar gael i lywio gwaith craffu'r Pwyllgor ar berfformiad ysgolion a bod modd cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol yn unig bellach yn hytrach na chymharu ag awdurdodau lleol tebyg. Cytunodd cynrychiolwyr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg â'r pryderon a godwyd, ond roedd y newidiadau'n golygu symud i ffwrdd oddi wrth ddata meintiol caled a symud tuag at ddata ansoddol meddalach yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, ansawdd yr addysgu, llesiant ac anghenion dysgu amrywiol. Tynnodd cynrychiolwyr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg sylw at y ffaith y byddai categoreiddio ysgolion yn arwydd o'u llwybr gwella.

Holodd yr Aelodau am y bwlch ym mherfformiad merched a bechgyn, a gofyn am gael rhagor o wybodaeth am ddulliau delio â'r mater hwn. Dywedodd cynrychiolwyr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg fod gwaith yn cael ei wneud gydag ysgolion i ddarparu strategaethau ac offer ar eu cyfer nhw i amlygu problemau a dulliau casglu data gwell ar y bwlch, a'r rhesymau drosto. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod rhai ysgolion wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng y rhywiau, a'u bod nhw'n rhannu arferion da ar draws y rhwydwaith ysgolion. Dywedwyd hefyd wrth yr Aelodau fod y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar brofiadau dysgu dilys sydd, yn eu tro, yn anelu at fynd i'r afael â'r bwlch rhwng y rhywiau a gwella perfformiad bechgyn ar lefel cynradd ac uwchradd. Tynnodd y Swyddogion sylw at y ffaith nad oedd y fwrdeistref sirol yn sefyll allan fel ardal â bwlch arbennig o fawr rhwng y rhywiau.

Gofynnodd un o'r Aelodau am eglurhad ar y clystyrau STEM a gwaith monitro eu gwaith i sicrhau eu bod yn effeithiol. Eglurodd cynrychiolwyr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg fod aelod craidd o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ym mhob clwstwr sy'n ymgysylltu â nhw ac yn monitro grantiau ac addasrwydd eu gweithgarwch. Hefyd, mae pob clwstwr yn gysylltiedig ag ysgol arloes lle gall cynrychiolydd y clwstwr gyflwyno arferion da.

Gofynnodd yr Aelodau sut byddai'r newidiadau o ran adrodd ar berfformiad yn effeithio ar y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer y rhanbarth. Dywedodd cynrychiolydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg wrth yr Aelodau fod gan y Gwasanaeth rôl i'w chwarae o hyd a byddai'r Gwasanaeth yn paratoi Blaengynllun Busnes tair blynedd, a Chynllun Busnes manwl am y flwyddyn, maes o law. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg hefyd yn cyflwyno'r dull adolygu gan gymheiriaid i'r ysgolion, gyda chydweithio agosach fyth rhwng yr ysgol a'r cynghorwyr herio. Yn ogystal â hyn, bydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol i ragfynegi newidiadau posibl yn y Gwasanaeth Addysg, ac i baratoi ar eu cyfer.

Cafwyd trafodaeth faith wedyn ynghylch data perfformiad a phennu targedau cywir, ac arweiniodd hyn at drafodaeth ynghylch cwtogi ar gyllidebau – gan gynnwys cwtogi ar wasanaethau cynnal ymddygiad – a holodd yr Aelodau ynghylch yr effaith ar reoli ymddygiad heriol yn yr ysgol. Dywedodd y Prif Swyddog Addysg wrth yr Aelodau fod dulliau amgen a dulliau cyflawni newydd yn cael eu datblygu – gan gynnwys hyfforddiant gwell i gynorthwywyr addysgu a datblygu arferion yn yr ysgolion i ddelio ag ymddygiad heriol.

O ran addysg heblaw yn yr ysgol, rhoddodd wybod i'r Pwyllgor y bydd adroddiad yn cael ei ddwyn ymlaen er mwyn cyflwyno pob agwedd ar addysg heblaw yn yr ysgol – gan gynnwys darpariaethau ar gyfer ymddygiad heriol lle nad oes modd diwallu anghenion dysgu yn yr ysgol. Cododd yr Aelodau gwestiynau ynghylch nifer y plant yn y fwrdeistref sirol a oedd yn cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol – gan gynnwys yn y cartref neu sy'n cael eu hanfon i leoliadau arbenigol y tu hwnt i ffiniau'r fwrdeistref sirol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg fod tua 300 ar y gofrestr ar hyn o bryd. Esboniodd hefyd fod plant yn cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol am nifer o resymau; nid am eu hymddygiad yn unig, ond hefyd ar sail eu hanghenion meddygol – gan gynnwys materion iechyd meddwl – a'i bod hi'n werth cadw

mewn cof mai'r rhain yw rhai o'r bobl ifanc fwyaf bregus yn y fwrdeistref sirol, â materion eang a chymhleth. Nodwyd bod darpariaethau hefyd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer cefnogi plant lle mae'r rhieni'n dewis eu haddysgu nhw gartref. Yn ychwanegol at hyn, atgoffodd y Swyddog yr Aelodau y byddai lefel a hyd y cymorth a ddarperir yn cael ei addasu i weddu'n berffaith i anghenion y disgyblion unigol, gyda'r nod delfrydol o ailgyflwyno'r disgyblion hynny i'r ysgolion prif ffrwd.

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch y derminoleg a ddefnyddir yn yr adroddiadau o ran y Gymraeg; roedd yr Aelodau o'r farn ei bod hi'n anodd gwahaniaethu rhwng p'un a oedd y data'n cyfeirio at ddysgu Cymraeg neu iaith a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai terminoleg genedlaethol oedd hon, ond byddai modd ei newid er mwyn bod yn fwy eglur.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

**8. MONITRO'R GYLLIDEB 2018/19**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyllid yr adroddiad a oedd yn amlinellu rhagamcan o sefyllfa alldro 2018-19 ar gyfer y Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Tynnodd sylw'r Aelodau at y ffaith bod gorwariant rhagamcanol o £438,000 ar hyn o bryd yn y Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes a thanwariant o £1.475 miliwn yn y Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol yn gyffredinol. Dywedodd wrth yr Aelodau am bwyntiau perthnasol i'w nodi, fel y manylir yn adroddiad y Swyddog, gan ofyn i'r Aelodau roi sylw arbennig i adeg paratoi'r adroddiad, sef chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ac, felly, byddai rhywfaint o ansicrwydd yn y ffigurau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr adroddiad, a chroesawyd sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau.

Trafododd yr Aelodau gostau darparu cymorth ychwanegol ar gyfer plant nad ydynt yn gallu cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd – gan gynnwys addysg yn y cartref a lleoliadau y tu allan i'r ardal. Mynegwyd pryderon ynghylch lefel y cyllid yr oedd ei angen, a gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd darparu'r gwasanaethau hyn yn fewnol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg fod costau yn y maes hwn wedi cynyddu, ond rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau fod yr achosion hynny, lle y defnyddir darpariaeth amgen, yn rhai eithafol a chymhleth ac er budd pennaf yr unigolyn dan sylw. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu darpariaeth fewnol drwy gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol i athrawon gael hyfforddi fel arbenigwyr ym maes ymddygiad heriol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am gynlluniau i ddatblygu canolfan ragoriaeth ar gyfer addysgu plant ag ymddygiad heriol, a'r weledigaeth oedd ei chynnal ochr yn ochr â rhaglen allgymorth i alluogi ysgolion i rannu arferion gorau. Codwyd cwestiwn pellach gan un o'r Aelodau ynghylch y costau, ar hyn o bryd, sy'n gysylltiedig ag anfon plant y tu hwnt i ffiniau'r fwrdeistref sirol er mwyn diwallu anghenion dysgu penodol. Dywedodd y Prif Swyddog Addysg wrth yr Aelod fod llawer o resymau pam na all plentyn gael ei addysgu mewn ysgol neu yn y fwrdeistref sirol. Er bod llawer o waith yn cael ei wneud i wella argaeledd ac ansawdd y ddarpariaeth 'fewnol' o ran cymorth addysg ychwanegol, bydd bob amser gyfran o blant y bydd rhaid iddyn nhw fynd y tu allan i'r ardal er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu penodol ac i'r Cyngor dalu'r costau hynny. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau y bydd rhagor o adrodd i'r Pwyllgor ar y pwnc hwn maes o law.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad, a'i atodiad amgaeedig.

Terfynwyd y cyfarfod am 19:30

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2018 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

__________________________

CADEIRYDD